

# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Cymru Diweddariad 2021-22

Adroddiad gan Bartneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru

**Partneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru –** *Gweithio'n lleol ac ar y cyd i wella Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru*

# Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol Cymru – Diweddariad 2021/22

## Cyflwyniad

Sefydlwyd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn helpu i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar draws y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Ers hynny, mae'r grŵp wedi cynhyrchu Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae'r fframwaith yn nodi'r strwythur ar gyfer gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2018-23. Yn dilyn hyn, lluniwyd Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer 2021-22. Mae'r cynllun yn amlinellu'r camau gweithredu blaenoriaethol a nodwyd gan y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn cynnal a gwella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ledled Cymru.

Cytunodd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ei bod yn bwysig cynnal cysylltiadau rhwng y rhwydwaith a'r lefel leol. Felly, cynhwyswyd y camau gweithredu canlynol yn y cynllun gweithredu:

'Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, pan fo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o edrych am gyfleoedd ariannu.'

## Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Grwpiau Awdurdodau Perthnasol

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phump o'r 134 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru. Fodd bynnag, maent yn cynrychioli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig mwyaf ac felly'n cwmpasu cyfran fawr o rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Mae llawer o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig llai o faint, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Ramsar, yn dod o fewn ffiniau'r pum safle ac yn helpu i'w hategu. Bydd prosiectau yr ymgymerir â nhw o fewn y pum Ardal Forol Warchodedig bob amser yn ystyried gofynion yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig llai o faint sydd ynddynt yn ogystal ag ystyriaethau eraill, e.e. Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd rhai o'r prosiectau hefyd yn helpu i gyflawni rheolaeth ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig newydd ar gyfer llamidyddion, yn ogystal â safleoedd presennol heb unrhyw Grŵp Awdurdodau Perthnasol, e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy. Caiff llawer o'r prosiectau a amlinellir yn yr adroddiad hwn eu nodi fel camau gweithredu lleol yn Atodiad 1 Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith 2021-22.

Dyma'r Grwpiau Awdurdodau Perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:

- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Bae Ceredigion
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Sir Benfro Forol
- Grŵp Awdurdodau Perthnasol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
- Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren

## Gwaith arall

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau yr ymgymerwyd â nhw gan Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a swyddogion safle'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig a restrir uchod a fydd yn helpu i wella neu gynnal cyflwr y safle. Fodd bynnag, mae'r Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a swyddogion safle yn cyflawni llawer o dasgau sy'n hanfodol i gynnal rheolaeth o'r safle ond nad ydynt wedi'u cynnwys mewn prosiectau unigol. Mae'r rheini yn cynnwys y tasgau canlynol ymhlith eraill:

- Cynnal y Grŵp Awdurdodau Perthnasol a'r Grŵp Cyswllt
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Codi ymwybyddiaeth ac addysgu
- Chwilio am ffynonellau cyllid a sicrhau cyllid
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- Darparu cyngor a gwybodaeth
- Cysylltu ag eraill a gweithio mewn partneriaeth
- Gweithio gyda swyddogion safle eraill i sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith
- Bod yn rhan o grwpiau amrywiol i sicrhau bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu cynrychioli ac er mwyn hybu cydweithio, e.e. y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol ac ati
- Cyfrannu at becynnau gwaith cenedlaethol, e.e. Prosiect Gwella Cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig CNC, Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, cysylltu ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU ac ati

Mae cyllid ar gyfer swyddogion safle Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd. Adlewyrchir hyn yn nifer y diwrnodau bob wythnos y mae gan bob safle swyddog safle penodedig. Mae hyn yn amrywio o un i bum diwrnod yr wythnos (gweler Tabl 1). Mae hyn yn ei dro yn adlewyrchu faint o waith sy'n bosibl ar y safle.

| Ardal Forol Warchodedig | Nifer y diwrnodau bob wythnos |
|---|---|
| ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | 5 |
| ACA Bae Ceredigion | 3 |
| ACA Sir Benfro Forol | 2.9 |
| Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | 1 |
| Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren | 2 |

***Tabl 1: Nifer y diwrnodau bob wythnos y mae gan bob Ardal Forol Warchodedig swyddog safle penodedig yn gweithio iddi***

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae manteision gweithio mewn partneriaeth yn hysbys eisoes ac mae swyddogion ACA ledled Cymru wedi bod yn cydweithio ers blynyddoedd lawer. Mae'r swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd er mwyn rhannu arferion gorau, rhannu adnoddau, a thrafod syniadau i ddatrys problemau cyffredin. Mae'r swyddogion hefyd yn cydweithio ar nifer o brosiectau ar lefel y rhwydwaith sy'n cyflawni ar sail camau gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r gwaith a gyflawnir ar y cyd eleni'n cynnwys prosiectau'n ymwneud â'r canlynol:

- Lleihau sbwriel
- Lleihau aflonyddu ar famaliaid ac adar y môr

- Ap Crwydro Arfordir Cymru
- Moroedd Gwyllt Cymru

## Egwyddorion rheoli

Datblygodd y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig bum egwyddor rheoli er mwyn llwyio’r gwaith o gyflawni’r weledigaeth a’r amcanion ar gyfer rheoli’r rhwydwaith. Mae pob cam gweithredu sydd wedi’i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu at o leiaf un o'r pum egwyddor rheoli. Mae camau gweithredu lleol yn cyfrannu'n bennaf at egwyddor rheoli 5, sef gwaith rheoli ehangach. Ond mae llawer ohonynt yn cyfrannu i egwyddorion rheoli eraill hefyd.

| **Egwyddor Rheoli** |
|---|
| **MP1**: Cynllunio strategol |
| **MP2**: Prosesau rheoleiddio, caniatáu datblygiadau ac asesu |
| **MP3**: Cyngor a chanllawiau rheoli |
| **MP4**: Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, y pwysau arnynt a’r bygythiadau y maent yn eu hwynebu, er mwyn gosod sail ar gyfer gwaith rheoli |
| **MP5**: Gwaith rheoli ehangach |

***Tabl 2: Egwyddorion rheoli***


# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – Diweddariad 2021/22

Alison Palmer Hargrave

## Tir a Môr Llŷn

Mae Tir a Môr Llŷn, a ariennir gan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, yn brosiect ar lefel dalgylch sy'n edrych ar reoli'r tir a'r môr gyda'i gilydd. Mae'r prosiect hwn yn dod â dwy bartneriaeth hirsefydlog ynghyd, sef ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a Phartneriaeth Llŷn. Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys y canlynol:

- Rheoli cynefinoedd ar hyd rhannau o lwybr yr arfordir
- Datblygu cyswllt mynediad rhwng gogledd a de Llŷn ar lwybr yr arfordir
- Treialu model ffermio gyda thaliad am ganlyniadau mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Rheoli dalgylch afon Daron









## O'r Mynydd i'r Môr








Mae O'r Mynydd i'r Môr yn ymdrin â thraean isaf yr ACA ac mae wedi sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Tirweddau mewn Perygl i weithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr ymhellach gan ddefnyddio proses a elwir yn gyd-lunio. Mae glasbrint sy'n crynhoi'r broses gyd-lunio wedi'i gynhyrchu. Mae'r glasbrint bellach wedi'i gadarnhau gan y Grŵp Cyswllt ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiect ymhellach, adeiladu partneriaeth newydd ac archwilio cyfleoedd ariannu.

## Y Cod Morol




Mae gwaith eleni wedi canolbwyntio ar ddiweddaru'r Codau Morol ar gyfer Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid i lywio'r broses hon, gan gynnwys gweithdai, sesiynau galw heibio a holiadur i randdeiliaid. Mae'r ACAau hefyd wedi datblygu partneriaeth newydd gyda heddluoedd lleol. Mae hyn wedi arwain at Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal nifer o ddiwrnodau ymwybyddiaeth o'r Cod Morol ar draethau lleol mewn lleoliadau allweddol ar draws ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac Ynys Môn. Mae logos yr heddlu hefyd wedi'u cynnwys ar y Codau Morol diwygiedig.




## Crwydro Arfordir Cymru

Mae swyddogion ACA ledled Cymru wedi bod yn gweithio gyda Fforwm Arfordirol Sir Benfro i ddatblygu ap newydd i helpu i hyrwyddo Codau Morol ledled Cymru. Rhoddwyd mewnbwn ar frandio, dylunio a chynnwys. Mae'r ap bellach ar gael yn yr App Store.

## Cynllun Bioddiogelwch PLAS

Mae swyddog yr ACA wedi bod yn gweithio gydag CNC i ddatblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer PLAS i helpu i atal lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Ariennir y gwaith hwn gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- Cynhyrchu a dosbarthu diweddariadau
- Adroddiad: Asesu Llwybrau Rhywogaethau Estron Goresgynnol Morol Cymru
- Adroddiad: Asesu effaith rhywogaethau estron goresgynnol allweddol ar nodweddion, pysgodfeydd a dyframaethu Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru
- Gweithdai i randdeiliaid
- Mapio rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy
- Drafftio'r cynllun bioddiogelwch



Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) Biosecurity Plan Workshop- Report

## Aflonyddu ar forloi bach

Cafodd y paneli morloi bach eu gosod eleni eto gan ddefnyddio'r rhwydwaith o gysylltiadau a grëwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae mwy o randdeiliaid yn adrodd am aflonyddwch ac mae mwy o dirfeddianwyr yn gofyn am arwyddion.

## Prosiect Morwellt Porthdinllaen

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar opsiynau i leihau amrywiaeth o effeithiau ar wely morwellt Porthdinllaen, un o'r gwelyau morwellt mwyaf helaeth a mwyaf dwys yng Nghymru. Mae gwaith eleni wedi cynnwys y canlynol:

- Cynhyrchu angorau heligol yn lleol
- Treialu angorau heligol yn yr harbwr mewnol
- Ymchwil i systemau angori uwch
- Treialu pedair system angori uwch (Seaflex a Safemoor)
- Mapio rhanddeiliaid
- Gweithgareddau ymgysylltu, addysgu a chodi ymwybyddiaeth



## Morwellt: Achub Cefnfor

Mae hwn yn brosiect partneriaeth rhwng ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, Prosiect Morwellt, WWF, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Phrifysgol Abertawe. Fe'i hariennir trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac mae yn y cam datblygu ar hyn o bryd. Bwriad y prosiect hwn yw ail-hadu deg hectar o forwellt o amgylch Ynys Môn a Phen Llŷn. Mae gwaith modelu addasrwydd cynefinoedd, cynnal treialon plannu hadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi lleihau nifer yr ardaloedd plannu posibl i saith. Bydd y rhain yn cael eu mireinio ymhellach yn y cyfnod cyflawni os bydd y cais am gyllid yn llwyddiannus.







## Natur am Byth!

**Natur am Byth!** yw prosiect blaenllaw Cymru, sef partneriaeth o naw elusen amgylcheddol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn gwarchod rhywogaethau sydd mewn perygl ac yn ailgysylltu'r cyhoedd â'u treftadaeth naturiol. Mae'r prosiect mewn cyfnod datblygu 18 mis o hyd ar hyn o bryd, a fydd yn arwain at gyflwyno cais am arian i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Mawrth 2023. Os bydd y cais hwnnw'n llwyddiannus, bydd cyfnod cyflawni o bedair blynedd yn dechrau ym mis Medi 2023.

Mae Natur am Byth! yn dilyn gwaith tebyg a ariennir gan y loteri yn Lloegr (**Back from the Brink**) ond, yn bwysig hefyd, mae'n cynnwys yr amgylchedd morol. Mae **Species on the Edge** yn yr Alban hefyd yn ei gyfnod datblygu ar hyn o bryd. Mae Natur am Byth! yn cynnwys pum prosiect integredig a chwe phrosiect un rhywogaeth.


Un o'r rhain yw **Trysorau Morol Cymru**, sef prosiect a arweinir gan y **Gymdeithas Cadwraeth Forol**. Bydd yn canolbwyntio ar warchod rhywogaethau morol pwysig sydd mewn perygl, gan gynnwys morwellt, y fôr-wyntyll binc, y cimwch coch a'r wystrysen frodorol. Bydd y prosiect hefyd yn cymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol i wella ansawdd dŵr ar hyd arfordir Cymru.

Mae'r gwaith morol yn y ddau brif leoliad ar gyfer Trysorau Morol Cymru yn cael ei gynorthwyo gan y canlynol:

- Cydlynydd rhanbarthol **Llŷn ac Ynys Môn** Alison Palmer Hargrave (Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau). Arweinydd ar gyfer y pecynnau gwaith morwellt, cimychiaid coch ac ansawdd dŵr.
- Cydlynydd rhanbarthol **Sir Benfro** Sue Burton (Swyddog ACA Sir Benfro Forol). Arweinydd ar gyfer y pecynnau gwaith môr-wyntyllau pinc a wystrys brodorol.

## Pecyn addysg

Mae addysg yn elfen allweddol o reolaeth forol. Mae swyddog yr ACA wedi bod yn arwain partneriaeth i ddatblygu pecyn addysg dwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r pecyn yn ymdrin ag amgylcheddau morol, dŵr croyw a’r tir yn unol â'r dull rheoli ar sail dalgylch. Mae'r pecyn, rhai fideos 'sut mae', pecynnau offer a phosteri bron yn gyflawn. Bydd y pecyn gorffenedig ar gael i'w lawrlwytho ar wefan PLAS.




## Ymwybyddiaeth ac addysg

Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn chwarae rhan hanfodol mewn rheolaeth forol. Er mwyn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl, mae swyddog yr ACA wedi gwneud y canlynol:



- Hyrwyddo cylchgrawn O Dan y Don PLAS
- Bod yn weithgar ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol PLAS a chynnal gwefan PLAS
- Ysgrifennu nifer o erthyglau
- Bod ar y radio lleol yn trafod materion morol
- Rhoi nifer o gyflwyniadau
- Trefnu a mynychu nifer o weithdai ar-lein
- Ymweld ag ysgolion lleol
- Hyrwyddo ffilmiau PLAS
- Cwrdd â nifer fawr o grwpiau a sefydliadau i hyrwyddo PLAS ac annog gweithio mewn partneriaeth

## Mewnbwn i waith Ardaloedd Morol Gwarchodedig cenedlaethol

Gweithiodd AH gyda swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru i gyflawni allbynnau ar gyfer dau brosiect ar lefel y rhwydwaith, sef ar aflonyddu ar rywogaethau a sbwriel, ac roedd y ddau wedi’u hariannu gan Gynllun Gweithredu’r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.  AH oedd y rheolwr prosiect ar gyfer y ddau brosiect, roedd hyn yn cynnwys y gwaith canlynol:

- Dirprwyo gwaith yn briodol
- Rheoli cyllid
- Adrodd i Lywodraeth Cymru
- Sicrhau bod yr allbynnau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol

Roedd yr allbynnau’n cynnwys y canlynol:

- Adroddiad: Defnyddio delweddau a dynnwyd o bell i gynnal arolwg o sbwriel, morloi a morwellt
- Adroddiad:  Adolygiad o'r Cod Morol

- Pedwar Cod Morol diwygiedig
- Taflenni
- Brandio a logo ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Bu swyddog yr ACA hefyd yn gweithio'n agos gydag CNC i adolygu camau gweithredu ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn y gronfa ddata o gamau gweithredu. Yna, caiff yr wybodaeth hon ei bwydo i mewn i gynllun rheoli'r safle.

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu am ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, cysylltwch ag Alison Hargrave yn alisonpalmerhargrave@gwynedd.llyw.cymru neu ewch i wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Pen Llŷn a'r Sarnau gan ddefnyddio'r dolenni isod.



# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Bae Ceredigion – Diweddariad 2021/22

Melanie Heath


Cysylltodd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig â'r holl wirfoddolwyr gwylio dolffiniaid a llamidyddion ddechrau mis Ebrill, gan ddosbarthu taflenni data, mapiau a'r holl wybodaeth fonitro arall yr oedd ei hangen ar gyfer y tymor.

Cafodd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig gyfnod dirybudd o absenoldeb salwch hirdymor wedyn o 14 Ebrill 2021 tan fis Medi 2021. Dychwelodd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig i'w gwaith ym mis Medi ac ar gyfer rhan o fis Hydref a threuliodd yr amser hwn yn mynd i'r afael â materion aflonyddwch, a oedd wedi bod yn sylweddol dros yr haf tra oedd y swyddog heb weithio oherwydd salwch, gan nad oedd unrhyw un arall o Gyngor Ceredigion wedi gallu cyflawni gwaith swyddog yr Ardal Forol Warchodedig.

Roedd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ers pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r problemau o ran aflonyddwch ymhellach. Ar ben hynny, roedd y tri chwmni cychod a oedd yn cynnal teithiau bywyd gwyllt o Geinewydd, ac sydd gyda'i gilydd yn gyfrifol am naw cwch teithiau, yn rhedeg teithiau o awr yn unig, yn hytrach na'r cymysgedd arferol o deithiau awr a dwy awr; mae'r teithiau dwy awr yn teithio ymhellach ar hyd arfordir yr ACA. O ganlyniad, roedd yr ardal bywyd gwyllt hynod sensitif rhwng Penrhyn Ceinewydd a Chraig yr Adar yn destun traffig cychod teithiau cyson, ynghyd â phadlfyrddau y gellir sefyll arnynt, canŵod, a chychod modur hamdden a RIB. Mae'r ardal hon yn fan bwydo allweddol i ddolffiniaid trwyn potel, yn enwedig benywod â lloi ifanc iawn, mae'n cynnwys un o gytrefi magu adar môr pwysicaf Cymru, ac mae hefyd yn cynnwys man glanio ar gyfer morloi llwyd.


Gosododd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig fyrddau hefyd mewn deg lleoliad ar hyd arfordir yr ACA i godi ymwybyddiaeth o forloi bach. Treuliwyd mis Medi a mis Hydref yn ymdrin â phroblemau yn ymwneud ag aflonyddwch gan gychod teithiau bywyd gwyllt a defnyddwyr dŵr hamdden, a hefyd aflonyddu ar forloi bach gan ddefnyddwyr dŵr a mynediad y cyhoedd at y traethau lle mae'r morloi yn cael lloi bach.

Roedd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig yn absennol oherwydd salwch am ail gyfnod, o ganol mis Hydref a thrwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Dychwelodd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig i'r gwaith ym mis Ionawr 2022. Treuliwyd amser swyddog yr Ardal Forol Warchodedig rhwng mis Ionawr a mis Mawrth yn adolygu'r Codau Morol ar gyfer Ceredigion, Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn. Roedd hyn yn cynnwys creu a dosbarthu holiadur manwl, er mwyn cael barn a safbwyntiau rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar newidiadau i'r Cod Morol. Cynhaliodd swyddog yr Ardal Forol Warchodedig waith ymchwil sylweddol hefyd, gan edrych ar broblemau o ran aflonyddwch ar lefel y DU a ledled y byd. Yna, addaswyd y Cod Morol ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn gyda'r nod o leihau
















aflonyddwch ar fywyd gwyllt morol a hefyd i wneud y Cod Morol yn symlach ac yn haws ei ddeall i ddefnyddwyr dŵr.

*Uchod: Codau Morol diwygiedig ar gyfer Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy.*


Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ACA Bae Ceredigion, anfonwch e-bost at ecology@ceredigion.gov.uk neu biodiversity@ceredigion.gov.uk.

# Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Sir Benfro Forol – Diweddariad 2021/22

Sue Burton

## Ansawdd dŵr yr arfordir agored

Roedd prosiect gwreiddiol SWEPT (Surveying the Waterway Environment for Pollution Threats) yn brosiect gwyddoniaeth dinasyddion arobryn yn edrych ar ansawdd dŵr a gynhaliwyd yn Nyfrffordd Aberdaugleddau yn 2018-19. Roedd cyllid gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn caniatáu prosiect SWEPT dilynol (Surveying the Welsh Environment for Pollution Threats), a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar arfordir agored Sir Benfro.




*Canlyniadau nitrad a ffosffad arfordir agored, Hydref 2020.*

O'r 81 o samplau a gymerwyd o amgylch yr arfordir ym mis Hydref 2020, gyda chymorth parcmyn y parc, roedd 51 (63%) yn llygredig (>1ppm) ar sail lefelau eu nitradau. Roedd saith yn llygredig iawn (10 + ppm N) (9% o'r samplau), 20 yn uwch na 5ppm N (25% o'r samplau), a 36 yn uwch na 2ppm N (44% o'r samplau). Roedd wyth lleoliad yn llygredig (>0.1ppm) ar sail lefelau eu ffosffadau. Mae'r canlyniadau hyn, parhad lefelau maethynnau sy'n llygru sy'n mynd i mewn i'r ACA forol o ddŵr ffo amaethyddol gwasgaredig, a'r potensial i hyn oll gael effaith ar iechyd dynol yn cael eu trafod yn gryno mewn adroddiad byr a ysgrifennwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

Mae swyddog yr ACA wedi parhau i roi cyngor ymarferol i'r prosiect CLEAN yn nalgylch afon Nanhyfer, yr effeithiwyd arno hefyd gan COVID-19, gan gofnodi'r canlyniadau yn 2021 a chynllunio ar gyfer gweithredu pellach.

## Gwaith morwellt

Parhaodd swyddog yr ACA i gefnogi Grŵp Rhanddeiliaid Morwellt Dale, gan helpu i drefnu cyfarfodydd gyda'r cadeirydd, darparu cofnodion cyfarfodydd, a chymryd camau dilynol i helpu i reoli'r ardal adfer morwellt yn barhaus. Roedd cefnogaeth leol i'r prosiect bellach yn fwy amlwg nag unrhyw wrthwynebiad. Roedd pysgotwr yn Dale bellach yn hysbysebu ei Wobr Pysgotwr Cyfrifol ar gyfer Ecosystemau Morwellt (SERF) – cynllun peilot i sicrhau gweithgarwch pysgodfeydd cynaliadwy o fewn y morwellt. Roedd darparwyr gweithgareddau chwaraeon dŵr newydd yn Dale yn awyddus i ymgorffori ymwybyddiaeth o forwellt ac addysg am forwellt yn eu gweithgareddau.

Bu Prifysgol Abertawe'n monitro'r safle yn hydref 2021 i asesu llwyddiant cyffredinol yr egino. Gwelwyd tyfiant morwellt da, a rhagwelwyd, os nad aflonyddir arno, fod y morwellt yn amlwg ar lwybr i orchuddio'r ardal gynlluniedig yn llwyddiannus.
Yn anffodus, bu pysgotwr lleol (Aberdaugleddau) yn treillio drwy'r safle adfer morwellt yn Dale ym mis Chwefror 2022. Mae'n ymddangos y gwnaed hyn gyda gwybodaeth flaenorol am y gwely ac efallai ei fod mewn ymateb i'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar bysgota am gregyn moch, a soniodd am osgoi ardaloedd o forwellt (wrth ddefnyddio potiau ag angorau). Roedd hyn wedi peri gofid i lawer o bobl leol. Cysylltwyd ar unwaith â swyddfa pysgodfeydd leol Llywodraeth Cymru ond, gan fod hwn yn weithgaredd cyfreithiol, nid oedd llawer y gellid ei wneud. Roedd yn risg y gwyddai staff y prosiect morwellt fod yn rhaid iddynt ei chymryd wrth leoli'r morwellt yn y man lle daeth y tyfiant. Ysgrifennodd Grŵp Rhanddeiliaid Morwellt Dale at Lywodraeth Cymru ac CNC i adrodd ar y gweithgaredd a chodi ymwybyddiaeth o'r risg i adfer morwellt yn sgil gweithgarwch pysgodfeydd niweidiol.

Mae swyddog yr ACA hefyd wedi bod yn gweithio gyda Phrosiect Morwellt i helpu i hwyluso cynlluniau adfer ar draws Cymru yn y dyfodol, gan gynnwys sefydlu Rhwydwaith Morwellt Cymru, cyfrannu at ddatganiad ar ddeddfwriaeth/polisi, a chreu deunyddiau ymgysylltu, gan gynnwys arwyddion newydd ar y morwellt yn Dale.

Contractiodd swyddog yr ACA adroddiad ar gyfer y Grŵp Awdurdodau Perthnasol yn seiliedig ar ymchwil ddoethurol ddiweddar i iechyd morwellt o fewn y ddyfrffordd. Roedd yr adroddiad yn ddilyniant defnyddiol i adroddiad morwellt Grŵp Gwyliadwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau yn 2017.

Cyfrannodd swyddog yr ACA at ddwy bennod o fewn llawlyfr adfer morwellt newydd gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain, Seagrass Restoration Handbook – CaBA (catchmentbasedapproach.org)

## Cyfnod datblygu Natur am Byth!

Ar ôl tendro am y gwaith, sicrhaodd swyddog yr ACA rôl Cydlynydd Rhanbarthol (Morol) Sir Benfro dan gontract i'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, a oedd yn arwain gwaith morol "Trysorau Morol Cymru" Cyfoeth Naturiol Cymru / Natur am Byth! Achub rhywogaethau Cymru sydd dan fygythiad (Natur am Byth!) ar gyfer CNC. Cynhaliwyd cyfarfod cychwyn ym mis Tachwedd. Roedd swyddog yr ACA yn arwain pecynnau gwaith ar yr wystrysen frodorol a'r fôr-wyntyll binc, gan weithio ochr yn ochr a chyfrannu at becynnau gwaith ar y cimwch coch, morwellt ac ansawdd dŵr dan arweiniad Cydlynydd Llŷn ac Ynys Môn (Swyddog PLAS, Alison Hargrave). Roedd is-gontractau ar gyfer gwaith wystrys brodorol a môr-wyntyllau pinc wedi'u gosod er mwyn cael rhagor o wybodaeth i lywio cam datblygu'r prosiect, a oedd i'w gwblhau ym mis Chwefror 2023. Roedd Natur am Byth! i fod i gymryd hanner amser gwaith swyddog yr ACA yn ystod y cyfnod datblygu.

## Gwefan wedi'i diweddaru ACA Sir Benfro Forol

Bu'n hen bryd cyflawni gweddnewidiad sylweddol ar wefan yr ACA, ac mae angen ei moderneiddio a'i diweddaru. Galluogodd cyllid prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hyn yn gynnar yn 2022, er bod yr amser yr oedd ei angen yn golygu nad oedd yn bosibl iddi fynd yn fyw tan rai misoedd yn ddiweddarach. Mae'r wefan gynhwysfawr bellach yn gwbl ddwyieithog ac mae'r cynllun syml newydd yn golygu y bydd swyddog yr ACA yn gallu gwneud golygiadau yn ôl yr angen. https://www.pembrokeshiremarinesac.org.uk/cy/hafan/

## Pecyn addysg dwyieithog Sir Benfro Forol

*Cardiau rhywogaethau "Top Trumps" – adnodd pwrpasol o'r pecyn addysg forol dwyieithog. ©Sue Burton*

Mae adnoddau pwrpasol fel y canllaw i wylwyr a gemau bingo traeth yn cael eu defnyddio a'u hyrwyddo. Mae cardiau rhywogaethau arddull 'Top Trumps' hefyd wedi'u rhannu'n lleol ac yn cynnwys 39 o rywogaethau cyffredin ledled Cymru. Roedd llawer o'r cynnwys o'r rhain yn cael ei ymgorffori yn ap Crwydro Arfordir Cymru, sy'n yn cael ei ddatblygu. Adolygodd a darparodd swyddog yr ACA lawer o'r cynnwys am rywogaethau glannau creigiog ar gyfer yr ap, gan gynnwys ffotograffau. Bu oedi eto wrth gwblhau'r Pecyn Gweithgareddau Glan y Môr oherwydd cyfyngiadau ar amser swyddog yr ACA, ond parhau y gwnaeth y brwdfrydedd dros yr adnodd ac mae'r lefelau cysylltu ag eraill wedi bod yn ehangu i hwyluso rhannu'r pecyn unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

## Gwaith ar y cyd ar aflonyddu ar rywogaethau

Gweithiodd swyddog yr ACA gyda Fforwm Arfordirol Sir Benfro a swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru i ddatblygu ap Crwydro Arfordir Cymru (a fodelwyd ar ap llwyddiannus Cod Morol Sir Benfro) a symud gwaith yn ei flaen ar ei ddyluniad, ei frandio a'i gynnwys. Roedd yr ap i fod i gael ei lansio ym mis Ebrill 2022.

## Cyfrannu at waith cenedlaethol sy gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Parhaodd swyddog yr ACA i weithio gydag CNC ar adolygu camau gweithredu ar gyfer ACA Sir Benfro Forol i helpu i wella/cynnal cyflwr nodweddion (ystyriwyd cyfanswm o 91 o gamau gweithredu, a oedd yn cynnwys camau gweithredu newydd eu datblygu). Amlygwyd camau gweithredu ar gyfer sefydliadau eraill yn ogystal ag ar gyfer aelodau'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol a Llywodraeth Cymru. Mae gan lawer o'r camau hyn berthnasedd cenedlaethol neu aml-safle.

Yn gynnar yn 2022, helpodd swyddog yr ACA i ddatblygu cynnig i'w gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2022-2023, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn drwy ddarparu capasiti ar draws y rhwydwaith i gasglu ynghyd y data sydd ei angen i lywio cynigion prosiect effeithiol, wedi'u targedu a gynlluniwyd i gyflawni gweithredu gwella.
Lluniodd swyddog yr ACA hefyd rai astudiaethau achos i ddangos y mathau o waith sy'n cael eu gwneud o amgylch y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a'r cyfraniad sy'n cael ei wneud i waith a arweinir gan CNC ar angori, cloddio am abwyd, ac adeileddau eco.
Yn anffodus, cafodd cynnig grant canlyniadau a rennir gan CNC ar gyfer prosiect 18 mis i weithio gyda chynhyrchwyr abwyd fferm a genweirwyr i godi ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer abwyd fferm yn lle abwyd gwyllt ei roi o'r neilltu oherwydd bod COVID-19 yn effeithio ar y gronfa.

Cyfrannodd swyddog yr ACA i'r astudiaeth gwmpasu a gomisiynwyd gan CNC yn edrych ar gyllid rhwydweithiau natur, gan ymchwilio i gamau gweithredu a allai fod yn addas i'w hehangu'n brosiectau diriaethol.

Cedwir mewn cysylltiad yn rheolaidd ag ymarferwyr Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn mannau eraill o’r DU; mae'r rhwydwaith yn un defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion da.

## Gwaith ychwanegol

Yn ogystal â'r prosiectau uchod, a gymerodd y rhan fwyaf o oriau gwaith rhan-amser swyddog yr ACA yn ystod 2021-22, bu'r swyddog yn cyfrannu i’r gwaith canlynol hefyd:

- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – rhoddodd dystiolaeth ar botensial carbon glas a datblygiadau yng Nghymru a hefyd ar ddiweddaru / gwthio’r gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ymlaen.
- Gwaith rheoli cloddio am abwyd yn The Gann, gan gynnwys arwyddion newydd, dan arweiniad CNC.
- Rheoli gweithgareddau hamdden morol lleol – cyfrannu at gynllunio hamdden lleol a hefyd cefnogi gwaith Fforwm Arfordirol Sir Benfro (Cod Morol Sir Benfro a Siarter Awyr Agored Sir Benfro), gan gynnwys helpu gyda hyfforddiant glannau creigiog.
- Adeiladu Gwytnwch mewn Dalgylchoedd (BRICs) dan arweiniad PLANED a Fforwm Arfordirol Sir Benfro.
- Gwaith ar brosiect pysgodfeydd lleol fel rhan o'r grŵp gweithredu lleol ar gyfer cyswllt â physgota.
- Gwaith codi ymwybyddiaeth, a oedd yn cynnwys cynnal cyfrifon Twitter a Facebook ac ymateb i ymholiadau *ad hoc.* Rhoddodd swyddog yr ACA gymorth wrth ffilmio yn Sir Benfro ar gyfer rhaglen deledu newydd i blant, *Meet the Experts*, a chyfrannodd at flog ar fywyd gwyllt ar gyfer 4theRegion, gwesteiwyr y rhwydwaith rheilffyrdd cymunedol.
- Saffari snorclo blynyddol ym mis Gorffennaf (croeso yn ôl ar ôl toriad COVID-19) gydag amodau perffaith a phrofiad diogel, pleserus a chofiadwy ar gyfer dosbarthiadau’r ddwy flynedd hynaf mewn ysgol gynradd leol. Trefnwyd gan swyddog yr ACA gyda chymorth gan Dale Fort FSC.



*Saffari snorclo blynyddol ysgol 2021. ©Ysgol Aberllydan*

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn neu am ACA Sir Benfro Forol, ewch i wefan yr ACA (sydd wedi gwella gryn dipyn!), sef www.PembrokeshireMarineSAC.org.uk, a/neu cysylltwch â Sue Burton yn sue.burton@mhpa.co.uk

@PembsMarineLife @PembrokeshireMarineWildlife

# Grŵp Awdurdodau Perthnasol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin – Diweddariad 2021/22

Judith Oakley

Ar hyn o bryd, dim ond am un diwrnod yr wythnos y caiff Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ei gyflogi. Y rheswm am hynny yw'r cyllid sydd ar gael gan bartneriaid y Grŵp Awdurdodau Perthnasol neu'r cyllid allanol arall sydd ar gael. Felly, mae'n anodd gwneud llawer o waith prosiect mewn cyn lleied o amser.

Mae'r prif feysydd gwaith yn cynnwys y canlynol:

- gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol
- mynychu cyfarfodydd allanol, gweithdai a chynadleddau a rhoi adborth i'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol
- ymateb i ymgynghoriadau
- cysylltu â swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd eraill yng Nghymru
- cysylltu â swyddogion CNC sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y safle
- mynychu cyfarfodydd cynllunio prosiectau gydag CNC
- ateb ymholiadau
- cyfrannu at gyrff ariannu / prosiectau
- cymryd rhan mewn amrywiol brosiectau ar y cyd â'r swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru dan ymbarél Partneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru

## Cyfrannu at waith cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Mae Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru i gyflawni allbynnau ar gyfer dau brosiect ar y cyd ar aflonyddwch a sbwriel morol a ariennir gan Gynllun Gweithredu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Yn ogystal, mae'r swyddog safle wedi bod yn gweithio gyda'r swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill a Fforwm Arfordirol Sir Benfro i ddatblygu ap Crwydro Arfordir Cymru newydd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2022, i helpu i hyrwyddo Codau Morol ledled Cymru. Cyfrannwyd at y gwaith brandio, y dyluniad a'r cynnwys a hyrwyddwyd yr ap trwy'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol a chysylltiadau eraill.

**Gwaith arall:**

Mae swyddog y safle wedi cyfrannu at Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Cyngor Abertawe, er mwyn sicrhau bod Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, a rhywogaethau a chynefinoedd morol ac arfordirol yn gyffredinol, yn cael sylw drwyddo draw.

Mae gwefan Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn cael ei hadolygu a'i hailgynllunio ar hyn o bryd.

Drafftiodd y swyddog safle god glan môr / arfordirol i Gymru gyfan sy'n cael ei adolygu.

Mae Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r grwp i rannu arferion da a syniadau.

Mae swyddog y safle yn parhau i weithio gartref (ers Mawrth 2020). Mae'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol wedi cynnal cyfarfodydd chwarterol ar-lein, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda chynrychiolaeth dda gan bartneriaid.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, cysylltwch â Judith Oakley: cbeems.officer@gmail.com

## Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren – Diweddariad 2021/22


Katie Havard-Smith

### Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a Chynllun Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Afon Hafren (y Gymdeithas) Gynllun Rheoli ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren, a Chynlluniau Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol, ar gyfer y cyfnod 2018-2023. Mae Cynllun Rheoli'r Gymdeithas yn fodd i'r awdurdodau perthnasol bennu'r fframwaith ar gyfer rheoli eu gweithgareddau, naill ai'n wirfoddol neu drwy ddeddfwriaeth, er mwyn cyflawni amcanion y safle o ran cadwraeth natur. Mae'n ystyried p'un a yw gweithgareddau'n achosi effeithiau niweidiol ac, os felly, sut y gall Awdurdodau Perthnasol reoleiddio gweithgareddau o'r fath er mwyn atal niwed i nodweddion ac is-nodweddion y safle. Mae effaith gweithgaredd yn dibynnu ar ei raddfa, ei leoliad a'i amlder, yn ogystal ag ar ba mor fregus yw nodwedd.

Mae Cynlluniau Gweithredu yn cynnig modd i Awdurdodau Perthnasol fynd i'r afael â'r canlynol:


- Gweithgareddau y nodwyd ei bod yn debygol eu bod yn achosi i'r safle ddirywio neu'u bod yn aflonyddu'n sylweddol ar y safle;
- Gweithgareddau y mae eu heffeithiau'n anhysbys (h.y. nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i benderfynu i ba raddau y mae'r safle yn dirywio neu i ba raddau y mae'r gweithgareddau'n aflonyddu ar y safle);
- Cynlluniau a phrosiectau penodol parhaus ac ailadroddus eu natur y gallai'r Gymdeithas hwyluso'r gwaith o lunio canllawiau ar eu cyfer.




*Cynllun Rheoli Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren 2018-2023*

Mae blwyddyn adrodd Cynlluniau Gweithredu'r Awdurdodau Perthnasol yn ymestyn o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Mae adroddiad 2020-21 ar gael ar gais a bydd adroddiad 2021-22 ar gael yn ddiweddarach eleni. Mae'r cynllun rheoli i fod i ddod i ben ddiwedd y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas wrthi'n diweddaru'r cynllun ar gyfer 2018-23 am y pum mlynedd nesaf (2024-29).

### Canllawiau Arfer Da Aber Afon Hafren




Mae'r Gymdeithas wedi nodi bod aflonyddwch gan weithgareddau hamdden yn un o'r prif broblemau sy'n effeithio ar statws cadwraeth Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Aflonyddwch yw unrhyw weithgaredd neu sŵn a allai newid ymddygiad anifail (wrth fwydo, gorffwys neu fridio) neu newid strwythur cynefin. Gall aflonyddwch mynych fygwth bodolaeth rhai o'r rhywogaethau a chynefinoedd allweddol a ddynodwyd dan Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren.

*Canllawiau Arfer Da Aber Hafren yn Gymraeg a Saesneg*

Er i'r canllawiau gael eu llunio yn 2017, mae eu hyrwyddo'n dal yn elfen allweddol o waith y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Perthnasol yn cymryd camau gweithredol i'w cefnogi

a'u bod yn cael eu parchu gan grwpiau defnyddwyr. Yn ystod 2021, mae swyddog y Gymdeithas wedi bod yn diweddaru'r canllawiau er mwyn cynnwys cyfarwyddyd newydd ynghylch defnyddio dronau, a'r aflonyddwch posibl y gallant ei achosi mewn ardal warchodedig. Caiff y canllawiau sydd wedi'u diweddaru eu hyrwyddo trwy sianeli Partneriaeth Aber Afon Hafren ar y cyfryngau cymdeithasol, ar wefannau'r Gymdeithas a'r Bartneriaeth, trwy'r Awdurdodau Perthnasol, ac mewn unrhyw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Mae'r canllawiau'n berthnasol ledled Cymru ac maent wedi'u hymgorffori o fewn ap Crwydro Arfordir Cymru a'r adnodd Cod Glan y Môr sydd wedi'i gynhyrchu gan Bartneriaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru.

## Astudiaethau o weithgareddau hamdden

Fel y crybwyllwyd uchod, nodwyd bod aflonyddwch gan weithgareddau hamdden yn broblem allweddol i Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren. Mae swyddog y Gymdeithas wedi bod yn canolbwyntio llawer ar gynnal adolygiad o weithgareddau er mwyn deall yr effaith bosibl y gallent fod yn ei chael ar nodweddion y Safle Morol Ewropeaidd.

### *Gweithgareddau hamdden ar y tir*

Nod Cam 1 yr astudiaeth hon yw crynhoi data sy'n bodoli eisoes ynghylch ystod o weithgareddau hamdden ar y tir (e.e. gwylio adar), gweithgareddau ar y traeth (e.e. syrffio barcud, gyrru bygis tywod a gyrru beiciau motocrós) a mynediad at yr arfordir. Casglwyd data am ddwyster, amlder a lleoliad y gweithgareddau hyn ar hyd a gerllaw Aber Afon Hafren. Cafodd yr adroddiad ynghylch Cam 1, a oedd yn cyflwyno'r data a gasglwyd, ei adolygu gan is-grŵp o aelodau'r Gymdeithas ac roedd yn sail i'r adroddiad cryno, a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2022/23.



*Llun ar y dde: Llwybr Hafren yn brysur – llun a dynnwyd yn Oldbury-on-Severn ©Katie Havard-Smith*

### *Palu am abwyd a genweirio hamdden*

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys genweirio oddi ar y lan ac oddi ar gychod, a phalu am abwyd at ddibenion hamdden. Roedd Cam 1 yr astudiaeth yn cynnwys casglu a mapio'r wybodaeth sy'n bodoli yn barod am y gweithgareddau hyn, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y data/tystiolaeth. Mae'n debygol y bydd Cam 2 yn cynnwys arolygon safle. Bydd y dystiolaeth hon yn dangos a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.



*Llun ar y chwith: Genweirio hamdden ar Aber Afon Hafren ©Katie Havard-Smith*

*Mynediad at yt arfordir*



Mae’r astudiaeth hon yn cynnwys mynediad at yr arfordir gan ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus o amgylch y Safle Morol Ewropeaidd at ddibenion hamdden, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a’r llwybrau arfaethedig fydd yn rhan o Lwybr Arfordir Lloegr. Roedd Cam 1 yr astudiaeth yn cynnwys casglu a mapio gwybodaeth am yr hawliau tramwy cyhoeddus sy’n bodoli yn barod o amgylch y Safle Morol Ewropeaidd. Mae’n debygol y bydd Cam 2 yn cynnwys cwrdd â swyddogion arweiniol ym maes mynediad at yr arfordir a chynnal arolygon safle er mwyn deall pryderon ynghylch lleoliadau penodol a mesurau rheoli sy’n bodoli’n barod. Caiff adroddiad cryno ei lunio. Bydd y dystiolaeth hon yn dangos a oes angen unrhyw gamau rheoli ar gyfer Awdurdodau Perthnasol.

*Hawliau tramwy cyhoeddus yn Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren © Katie Havard-Smith*

## Glanhau traethau mewn modd cyfrifol

Mewn cydweithrediad â Natural England a chynghorwyr CNC, mae’r Gymdeithas wedi llunio canllaw ar lanhau traethau’n gyfrifol ar gyfer Aber Afon Hafren. Bwriad y canllaw hwn yw codi ymwybyddiaeth o nodweddion sensitif Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a’r ffyrdd y gellir aflonyddu ar y safle trwy lanhau traethau, yn enwedig trwy sathru, amharu ar y draethlin, ac aflonyddu ar adar sy’n gorffwys, yn bwydo neu’n bridio. Mae cynnwys y canllaw yn seiliedig ar yr adnodd am lanhau traethau mewn modd sy'n ystyriol o fywyd gwyllt a gynhyrchwyd eleni gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Sefydliad Final Straw a Bird Aware Solent. Mae mwyafrif yr adnodd yn berthnasol ledled Cymru, ond mae swyddog y Gymdeithas yn gweithio gyda chynghorwyr Natural England ac CNC i gynnwys adran ar safleoedd sensitif penodol i'w hosgoi ar adegau penodol o'r flwyddyn ar gyfer Aber Afon Hafren. Mae’r adnodd hwn wedi’i gyhoeddi drwy’r cyfryngau cymdeithasol i ategu gwaith presennol Partneriaeth Aber Afon Hafren yn ei digwyddiadau codi sbwriel blynyddol, sef Diwrnod Glanhau Traethau a Glanhau’r Gwanwyn Aber Hafren, ac i fynd i’r afael ag aflonyddwch posibl ar y safle yn ystod y digwyddiadau hyn, sy’n hyrwyddo, ac a allai arwain at, weithgarwch dwysach ar yr arfordir.




*Uchod: Adnodd glanhau traethau mewn modd cyfrifol ar gyfer Aber Afon Hafren*

## Cyfrannu at waith cenedlaethol sy’n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Mae swyddog y Gymdeithas wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru i gyflawni allbynnau ar gyfer dau brosiect ar y cyd ar aflonyddwch

a sbwriel morol a ariennir gan Gynllun Gweithredu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Parhaodd swyddog y Gymdeithas hefyd i weithio gydag CNC ar adolygu camau gweithredu ar gyfer Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren i helpu i wella/cynnal cyflwr nodweddion. Amlygwyd camau gweithredu ar gyfer sefydliadau eraill yn ogystal ag ar gyfer aelodau'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol a Llywodraeth Cymru. Mae gan lawer o'r camau hyn berthnasedd cenedlaethol neu aml-safle.

Cyfrannodd swyddog y Gymdeithas hefyd at yr astudiaeth gwmpasu a gomisiynwyd gan CNC a oedd yn edrych ar gyllid rhwydweithiau natur, gan ymchwilio i gamau gweithredu a allai fod yn addas i'w hehangu'n brosiectau diriaethol.

Gweithiodd swyddog y Gymdeithas gyda Fforwm Arfordirol Sir Benfro a swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill yng Nghymru i ddatblygu ap Crwydro Arfordir Cymru ac i symud gwaith yn ei flaen ar ei ddyluniad, ei frandio a'i gynnwys. Cafodd yr ap ei lansio ym mis Ebrill 2022.

Mae swyddog y Gymdeithas yn mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig eraill ar draws y DU drwy'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r rhwydwaith yn darparu adnoddau defnyddiol ac yn rhannu arferion da.

Codi ymwybyddiaeth, cyfarfodydd y Gymdeithas a gwaith ymgysylltu allanol

Mae swyddog y Gymdeithas yn parhau i gefnogi'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol, gan hwyluso cyfarfodydd y Gweithgor a'r Grŵp Rheoli a threfnu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Tachwedd 2022).

Rydym hefyd wedi bod yn bresennol mewn llawer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan barhau i ymgysylltu â grwpiau trwy ddulliau rhithwir, hyrwyddo ein Canllawiau Arfer Da ar gyfer gweithgareddau hamdden, codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol a rhannu gwybodaeth am waith y Gymdeithas.

Mae swyddog y Gymdeithas hefyd wedi bod yn cynrychioli'r Gymdeithas ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, sydd bellach yn Bartneriaeth Arfordiroedd a Moroedd Cymru, gan sicrhau bod Safle Morol Ewropeaidd trawsffiniol Aber Afon Hafren wedi'i ystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd morol Cymru a Lloegr.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas, cysylltwch â Katie Havard-Smith yn Havard-SmithK@cardiff.ac.uk